Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
SIR GÂR • CARMARTHENSHIRE
Public Services Board

9.30am, Dydd Llun 14 Ionawr 2019
Y Goleudy, Llanelli

COFNODION

Yn bresennol	
Enw	**Sefydliad**
Barry Liles (Cadeirydd)	Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
Y Cynghorydd Emlyn Dole	Cyngor Sir Caerfyrddin
Huwel Manley	Cyfoeth Naturiol Cymru
Rob Quin	Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Carys Morgans	Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Uwch-arolygydd Gary Mills	Heddlu Dyfed-Powys
Julian Atkins	Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Ros Jervis	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Anna Bird	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Y Cynghorydd Jan Curtice	Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Jane Davidson	Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
Marie Mitchell	Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin
Christine Harley	Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
Jonathan Feild	Yr Adran Gwaith a Phensiynau

Yn bresennol:	
Enw	**Sefydliad**
Gwyneth Ayers	Cyngor Sir Caerfyrddin
Kate Thomas	Cyngor Sir Caerfyrddin
Amy Richmond	Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Stuart Walters	Cyngor Sir Caerfyrddin
Rhian Dawson	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

1. Croeso ac Ymddiheuriadau

Ymddiheuriadau	
Enw	**Sefydliad**
Wendy Walters	Cyngor Sir Caerfyrddin
Sarah Jennings	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Yr Athro Jean White	Llywodraeth Cymru
Andrew Cornish	Coleg Sir Gâr

Gwnaeth y Cynghorydd Emlyn Dole longyfarch Barry Liles ar dderbyn OBE am Wasanaethau i Sgiliau a Phobl Ifanc yng Nghymru. Mynegodd yr holl bartneriaid eu llongyfarchiadau.

Roedd Barry Liles wedi llongyfarch pawb a oedd yn gysylltiedig â threfnu 'Ymgyrch y Rhuban Gwyn' a oedd wedi cael cyhoeddusrwydd da, a'r gobaith oedd y byddai hyd yn oed mwy o sefydliadau yn gallu cymryd rhan yn y dyfodol.

2. Cofnodion a Materion yn Codi: 20 Medi 2018

- Rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf am rai camau gweithredu:
- Camau gweithredu 1 a 2 - lansiwyd cronfa fferm wynt Fforest Brechfa yn yr haf a chyflwynwyd prosiectau cymunedol. Oherwydd y diffyg rhybudd a roddwyd ynghylch y gronfa ranbarthol, cytunwyd i ohirio trafodaethau ffurfiol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) ynghylch prosiectau posibl. Nodwyd rôl Aled Vaughan-Owen, y swyddog datblygu cymunedol - i hwyluso defnydd y gymuned o'r gronfa a chynorthwyo'r gymuned i gyflwyno ceisiadau. Mae gan y Cyngor gysylltiadau da ag Aled gan ei fod hefyd yn Gynghorydd Sir.
- Bydd cynrychiolydd cyfathrebu yn cael ei enwebu i fynychu Cyfarfodydd y BCG, ar sail rota, o fis Mawrth ymlaen. Yn dilyn pob cyfarfod y BGC, bydd swyddogion arweiniol ac arweinwyr arbenigol y Grŵp Cyflawni yn cyfarfod a bydd trafodaethau'n cynnwys cyfleoedd cyfathrebu.
- Cam Gweithredu 6 - cyfarfod ynghylch buddsoddiad gan y sector preifat i'w gadarnhau.
- Cam Gweithredu 8 - cafodd cyfarfod i drafod cydweithrediad y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol/BGC ei ohirio ond bydd yn cael ei gynnal y mis hwn.
- Cam Gweithredu 12 - Roedd LlC wedi cadarnhau nad oedd cyllid LlC ar gael ar gyfer y System Wybodaeth Ddigidol. Nid oedd modd mynd ar ôl cyllid 'Buddsoddi er mwyn Arbed'. Roedd datblygiad y system wedi'i gynnwys yn y cais 'Cronfa Trawsnewid' gan y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol: disgwylir y canlyniad i hyn. Rhoddodd Ros Jervis wybod bod y cais wedi'i dderbyn yn gadarnhaol a bod cyhoeddiad gan Weinidog ar fin dod. Cyfeiriodd Barry Liles at adroddiad ynghylch Ailgychwyn System Llywodraeth Cymru gan bwyllgor a gadeirir gan Lee Walters yn ymwneud â defnyddio system ddigidol yn y gwasanaethau cyhoeddus. Cytunwyd bod yr adroddiad yn cael ei ddosbarthu.
- Camau gweithredu 13 ac 14 - Diolchodd Barry Liles i'r tîm diogelwch cymunedol am gydlynu ymgyrch y rhuban gwyn gyda phartneriaid a'r digwyddiad i ddathlu bod y Cyngor, yr Heddlu a'r Gwasanaeth Tân ac Achub wedi llwyddo i ennill statws rhuban gwyn. Os nad oedd partneriaid wedi ennill y statws hwn eto, fe'u hanogwyd i wneud hynny ac i gael unrhyw gyngor sydd ei angen arnynt gan y tîm diogelwch cymunedol.
- Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod gwir a chywir.

CAMAU GWEITHREDU	
Trefnu trafodaeth ar gynigion prosiectau posibl fferm wynt Fforest Brechfa mewn cyfarfod yn y dyfodol, pan fydd rhagor o fanylion ynghylch cronfa ranbarthol ar gael, a gwahodd Aled Vaughan-Owen, y swyddog datblygu cymunedol.	Tîm Cymorth y BGC
Dosbarthu copi o adroddiad Ailgychwyn y System: Trawsnewid Gwasanaethau Cyhoeddus drwy wneud gwell defnydd o ddulliau digidol: Adroddiad panel arbenigol ar gyfer Llywodraeth Cymru.	Tîm Cymorth y BGC
Os nad oedd hyn wedi'i wneud, ystyried gwneud cais am statws Rhuban Gwyn er mwyn dangos ymrwymiad i roi terfyn ar drais dynion yn erbyn menywod.	POB UN

3. Cynnig Community Wealth Building

- Rhoddodd Stuart Walters, Rheolwr Datblygu Economaidd y Cyngor, drosolwg o'r cynnig hwn sy'n ystyried ffyrdd y gall cyfoeth gael ei harnesio i wella'r economi leol. Mae'n rhoi sylw i wahanol

elfennau o gyfoeth sefydliadau er mwyn helpu'r economi leol, er enghraifft, yn Preston, roedd caffael lleol wedi effeithio ar yr economi leol. Mae Community Wealth Building wedi'i seilio ar bedair prif egwyddor: gweithlu, cadwyni cyflenwi/caffael, tir, eiddo ac asedau a pherchnogaeth. Gofynnwyd i'r BGC gefnogi datblygiad y cyfle hwn drwy sefydlu gweithgor, dan grŵp cyflawni Pobl a Lleoedd Ffyniannus a chynllun gweithredu, gan ymgysylltu â'r Centre for Local Strategies.

- Ystyriwyd bod y fenter hon yn ffordd gadarnhaol o wella arferion a rhoddwyd enghraifft ynghylch caffael bwyd lleol. Ystyriwyd bod CLES yn sefydliad da a bod hwn yn ddarn pwysig o waith a fyddai'n golygu na fydd cyllid cyhoeddus lleol yn gadael yr ardal. Roeddem mewn sefyllfa gadarnhaol gan fod y BGC ar waith, ond nid oedd hynny'n wir yn Preston. Cadarnhaodd Ros Jervis ei chefnogaeth i'r dull a chyfeiriodd at broses yn Wolverhampton lle llofnodwyd siarter a oedd ag egwyddorion tebyg i hyn. Nid oedd y broses, a oedd yn gysylltiedig â gweithgareddau comisiynu a chaffael, wedi costio dim. Cynigiodd Ros Jervis i darparu siarter Bwrdd Dinas Wolverhampton. Cadarnhaodd Rob Quin y cafwyd trafodaethau tebyg gyda'r Grŵp Cyflawni Pobl a Lleoedd Ffyniannus a byddai hwn yn ddull i gyfarwyddo ac arwain y gwaith hwn. Byddai adroddiadau rheolaidd yn cael eu rhoi i'r BGC er mwyn sicrhau bod y momentwm yn cael ei gynnal.
- Awgrymwyd y gellid cynnwys swyddog datblygu fel rhan o'r cais am gyllid LEADER a oedd yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Cytunwyd, os nad oedd y cyllid yn dod, y dylid parhau â'r cynnig hwn oherwydd gallai aelodau'r BGC roi cyfarwyddyd o ran cynnydd yr egwyddorion yn eu sefydliadau. Ymunodd Anna Bird â'r cyfarfod am 10.05 am.
- Trafodwyd llwyddiant y gweithdy caffael bwyd diweddar. Bu'n gadarnhaol oherwydd ystyriwyd proses weithredu'r egwyddorion caffael mewn cyd-destun ehangach, ac ystyriwyd cyfleoedd i alinio.
- Dywedodd Barry Liles ei fod yn hanfodol er mwyn rhoi cyhoeddusrwydd i lwyddiannau.
- Cytunwyd y byddai Stuart yn cael gwahoddiad i gyfarfod nesaf y Grŵp Cyflawni Pobl a Lleoedd Ffyniannus.

CAMAU GWEITHREDU	
Darparu copi o siarter comisiynu Bwrdd Dinas Wolverhampton i Dîm Cymorth y BGC i'w ddosbarthu.	Ros Jervis / Tîm Cymorth y BGC
Grŵp Cyflawni Pobl a Lleoedd Ffyniannus i wneud cynnydd ar gynnig Community Wealth Building, gan gynnwys ystyried cynnwys swyddog datblygu yn y cynnig am gyllid LEADER.	Jane Lewis
Gwahodd Stuart Walters i'r cyfarfod 'Pobl a Lleoedd Ffyniannus' nesaf.	Tîm Cymorth y BGC

4. Cynllun Llesiant Sir Gaerfyrddin - Y wybodaeth ddiweddaraf gan y Grŵp Cyflawni

- Hwn oedd y tro cyntaf i'r Grwpiau Cyflawni adrodd yn ôl i'r BGC, a hynny ar lafar, ond yn y dyfodol, byddai diweddariadau ysgrifenedig yn cael eu darparu.
- Amgylchedd Iach – Dywedodd Huwel Manley fod y grŵp wedi cwrdd deirgwaith yn y chwe mis diwethaf a chafwyd cynrychiolaeth deg ar draws y partneriaid craidd a byddai partneriaid ychwanegol yn cael eu gwahodd. Un o'r meysydd gwaith oedd bod CNC yn arwain y gwaith ynghylch y newid yn yr hinsawdd ar draws tair ardal yr awdurdodau lleol. Datblygwyd manyleb tendr i roi sylw i newid yn yr hinsawdd dros y flwyddyn ddiwethaf a'i effaith ar gymunedau. Neilltuwyd cyllid o £20,000 ac roedd y contract ar fin cael ei gaffael. Byddai'r gwaith yn cynnwys digwyddiadau ymgysylltu. Yn 2018, bu tywydd garw iawn a oedd wedi effeithio ar gymunedau, gan gynnwys effeithio ar gost cynnyrch fferm. Roedd angen gwneud gwaith ar adolygu targedau System Reoli Amgylcheddol sefydliadau, gan edrych ar yr hyn oedd wedi'i fesur. Roedd hyn yn fwy o broblem ar gyfer partneriaid sy'n cwmpasu nifer o siroedd. Roedd yn bwysig darganfod sut oedd cymunedau lleol yn gweld eu cydnerthedd, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig a sut y gallwn oroesi hinsawdd ansefydlog. Dywedodd Jane Davidson wrth y grŵp fod Llywodraeth Cymru wedi gwneud cyfres o reoliadau yn ymwneud â lleihau carbon ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus. Bydd

cynllun cyflawni carbon isel yn cael ei lansio ar 28 Mawrth, a bydd yn cadeirio grŵp gwasanaethau cyhoeddus. Diolchwyd i Wendy Phillips am ei chefnogaeth i'r grŵp.

- Ymyrraeth Gynnar – Amlinellodd Rob Quin y trafodaethau a oedd wedi'u cynnal ynghylch diffinio ymyrraeth gynnar. Cytunwyd ei bod yn ymwneud ag atal yn hytrach na thrin oherwydd ei bod yn allweddol atal pethau rhag digwydd yn y lle cyntaf. Roedd cyfarfodydd cyntaf y grŵp yn canolbwyntio ar rannu gwybodaeth am rolau partneriaid a'r problemau a wynebir. Cytunwyd bod angen i'r gwaith ychwanegu gwerth, herio arferion a dderbynnir a nodi lle y mae pobl yn llithro drwy'r bylchau. Mabwysiadwyd fframwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru a bydd blaenoriaethau a chynllun gweithredu yn cael eu datblygu yn y cyfarfod nesaf. Byddai gwaelodlin yn cael ei llunio, gwaith mapio ac adnabod bylchau yn cael ei gyflawni a byddid yn camu ymlaen ag agenda Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. Cafodd gwaith Camau Cynnar Gyda'n Gilydd ei gynnwys ym maes gorchwyl y grŵp ac roedd dull Dyfed Powys yn cael ei ystyried. Byddid yn ymgysylltu â chymunedau am eu materion, yr hyn y gallen nhw ei wneud eu hunain a'r hyn y gallent gael cymorth gydag ef. Nid oedd unrhyw heriau a rhwystrau wedi'u nodi ac roedd y cyflawniadau yn cynnwys datblygu perthynas ac ymddiriedaeth. Gwnaed cais i'r Gronfa Iach ac Egnïol a oedd wedi cyrraedd y cam ymgeisio olaf. Roedd copi o'r ffurflen mynegi diddordeb wedi'i gynnwys yn y papurau ac roedd yr achos busnes terfynol yn cael ei ddatblygu yn ystod gweithdy ar ddechrau mis Chwefror felly byddai sylwadau ar y ffurflen yn cael eu croesawu a gofynnwyd i bartneriaid gymryd rhan. Byddai Ros Jervis yn ymgymryd â rôl yr Arweinydd Arbenigol ar gyfer y grŵp ar ôl i Rob ymddeol ddiwedd mis Mawrth.
- Cymunedau Cryfach – Cadarnhaodd Marie Mitchell fod gan y grŵp ddau hanner penodol: rheoli asedau a gwirfoddoli. Roedd gan yr elfen rheoli asedau gyfeiriad clir yr oedd yn ei ddilyn, yn cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru ac roedd gwaith mapio yn cael ei gyflawni ynghylch yr ystafelloedd cyfarfod ac ystafelloedd digwyddiadau sydd ar gael yn y sectorau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector. O ran yr elfen wirfoddoli, roedd gwaith yn parhau ond roedd ychydig o fylchau yn y grŵp gan nad oes gan bob partner arweinydd gwirfoddoli felly roedd y grŵp yn bwriadu llenwi'r bylchau hynny â chydweithwyr eraill. Mae angen i'r holl bartneriaid gadarnhau swyddog arweiniol. Y cam cyntaf oedd holiadur i bartneriaid a oedd yn rhoi sylw i ffyrdd o ddefnyddio gwirfoddolwyr, strategaethau a pholisïau gwirfoddoli a datblygu cyfleoedd gwirfoddoli. Mae'r grŵp hefyd yn rhoi sylw i staff sy'n gwirfoddoli. Roedd un cyfarfod wedi'i ganslo oherwydd diffyg ymateb gan bartneriaid i'r arolwg. Y cam nesaf oedd mynd yn ehangach, er enghraifft cysylltu â sefydliadau preifat. Mae gan Gymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gâr (CAVS) fwy o wirfoddolwyr na nifer y cyfleoedd gwirfoddoli o ansawdd sydd ar gael. Bydd y gwaith hwn yn arwain at strategaeth i ddatblygu rhaglenni gwirfoddoli mewn sefydliadau.
- Pobl a Lleoedd Ffyniannus - Rhoddodd Gwyneth Ayers y wybodaeth ddiweddaraf ar ran y grŵp a oedd wedi cyfarfod unwaith ac mae gweithgarwch arall wedi bod yn digwydd y tu allan i'r cyfarfod. Roedd y meysydd a drafodwyd yn cynnwys gweithio'n lleol, llwybrau gyrfa i bobl ifanc yn lleol, cyfleoedd i ddatblygu prentisiaethau a datblygu sgiliau y gellir eu trosglwyddo ar draws y gwasanaethau cyhoeddus. Roedd partneriaid yn cydweithio ar fanteision cymunedol, a'r Cyngor yn cynnal trafodaethau â phartneriaid eraill sydd â diddordeb. Bydd y gwaith o fapio'r contractau sydd gan aelodau a faint sy'n cael ei wario yn yr economi leol yn cael ei ystyried a bydd cynnydd yn cael ei wneud o ran hyn drwy waith Community Wealth Building. Trafodwyd cais LEADER posibl, fel y cyfeiriwyd ato'n flaenorol. Yn ei gyfarfod diwethaf, roedd y BGC wedi cytuno i edrych ar gaffael bwyd ac roedd yr Athro Kevin Morgan o Brifysgol Caerdydd, arweinydd arbenigol o'r DU yn y maes hwn, yn cymryd rhan yn y gwaith. Yn y gweithdy cyntaf a gynhaliwyd ar 18 Hydref, rhoddwyd sylw i'r ddau safbwynt ynghylch cymorth iechyd ac economaidd i fusnesau bach a chanolig lleol drwy gaffael. Cafwyd sesiwn gadarnhaol a fynychwyd gan Aelodau'r BGC, uwch-swyddogion a chydweithwyr yn y gwasanaethau caffael. Y camau nesaf oedd mapio trefniadau ar gyfer caffael bwyd a chyflawni darn o waith ar sut y mae penderfyniadau'n cael eu gwneud yn lleol neu'n rhanbarthol a chyfleoedd i ddatblygu cadwyni cyflenwi lleol. Mynegwyd pryderon na ellir caffael yn lleol gan nad yw'r cynnyrch a'r cyflenwad ar gael, ond efallai y bydd cyfleoedd i gynhyrchu bwyd yn lleol ar ôl Brexit. Cynhelir y sesiwn nesaf ym mis Mawrth pan fydd manylebau

a chyfleoedd yn cael eu hystyried. Bydd sesiwn arall yn cael ei chynnal gyda chynhyrchwyr lleol, a fydd yn ystyried sut y gallwn symud ymlaen drwy Community Wealth Building. Dywedodd Jane Davidson fod cyfleoedd sylweddol oherwydd dim ond 3% o ffrwythau a llysiau sy'n cael eu tyfu yng Nghymru ar hyn o bryd. Cytunwyd y gall Brexit roi mwy o hyblygrwydd, a bod angen datblygu y broses o ddosbarthu'r cynnyrch, nid yn unig y cyflenwad.

- Ymgyrchoedd Cydgysylltiedig a Chyfathrebu - Atgoffodd Ros Jervis yr Aelodau fod y cam gweithredu tymor byr yn ymwneud â chyfathrebu ac ymgyrchoedd cydgysylltiedig, ac yn y gweithdy ym mis Mehefin 2018, cytunwyd na fyddai hwn yn grŵp cyflawni ar wahân ond yn hytrach yn weithgarwch galluogi ar gyfer y BGC cyfan a Grwpiau Cyflawni eraill. Cytunwyd, ar ôl cyfarfod y BGC, y byddai swyddogion cyfathrebu yn cyfarfod ag Arweinwyr Arbenigol y Grŵp Cyflawni i ddarganfod beth sy'n cael ei wneud, sicrhau bod cysylltiadau yn cael eu gwneud rhwng y grwpiau, gan leihau'r posibilrwydd o ddyblygu ac i hyrwyddo'r gwaith. Roedd y cam gweithredu tymor canolig ar gyfer y grŵp yn ymwneud ag atebion cymdeithasol ac amgylcheddol ar gyfer iechyd. Roedd Ros yn arwain gwaith i weld a oedd dull rhanbarthol yn briodol ynghyd â chynllun gweithredu ar gyfer Pwyllgor Strategol Canolbarth a Gorllewin Cymru. Byddai'n parhau i fynychu'r grŵp Ymgyrchoedd Cydgysylltiedig a Chyfathrebu - a elwir bellach yn Grŵp Cydweithio ac Integreiddio - fel cadeirydd y Grŵp Cyflawni Ymyrraeth Gynnar.
- Gadawodd Anna Bird y cyfarfod am 11 am.
- Cymunedau Mwy Diogel – Dywedodd Gary Mills fod y grŵp wedi cwrdd ar 23 Tachwedd gyda'r aelodau ynghyd â'r rhai sydd ar y bwrdd gwrthderfysgaeth lleol (CONTEST) a chydweithwyr troseddau difrifol a chyfundrefnol (SOC). Roedd hyn yn dilyn gweithdy ar 23 Medi i ystyried ffordd ymlaen a threfniadau partneriaeth yn y dyfodol, a oedd wedi argymell trefniant newydd gan arwain at dri chyfarfod yn olynol gyda'r Bwrdd CONTEST, y Bwrdd SOC ac yna'r Bartneriaeth Cymunedau Mwy Diogel. Yn y gweithdy, cytunwyd hefyd ar weledigaeth ac adolygwyd blaenoriaethau diogelwch cymunedol, a gadarnhawyd yng nghyfarfod y Bartneriaeth ym mis Tachwedd. Byddai Cylch Gorchwyl a chynllun gweithredu drafft yn cael eu cyflwyno yn y cyfarfod nesaf ar 19 Chwefror. Roedd yr eitemau eraill a drafodwyd yng nghyfarfod mis Tachwedd yn cynnwys 'Operation Mars' (sicrhau nad yw swyddogion yr heddlu yn camddefnyddio eu sefyllfa o ymddiriedaeth), Ymgyrch y Rhuban Gwyn, yr adroddiad drafft gan Grŵp Llywio Ty-isa a digwyddiadau Llinellau Cyffuriau aml-asiantaeth. Cynhelir y sesiynau hyfforddiant hyn i staff rheng flaen ar 6 a 7 Mawrth, a byddant yn rhoi amlinelliad o beth yw Llinellau Cyffuriau, yr arwyddion a sut i roi gwybod am bryderon. Bydd y sesiynau hefyd yn rhoi sylw i'r ddyletswydd Atal statudol sydd gan bartneriaid o ran gwrthderfysgaeth. Cytunwyd y byddai manylion y sesiynau yn cael eu dosbarthu a byddai Aelodau'r BGC yn trefnu bod eu sefydliadau yn cael eu cynrychioli.

CAMAU GWEITHREDU	
Dosbarthu'r wybodaeth ddiweddaraf gan y Grŵp Ymyrraeth Gynnar.	Tîm Cymorth y BGC
Ystyried y ffurflen Mynegi Diddordeb ar gyfer y Gronfa Iach ac Egnïol a rhoi unrhyw adborth i Joanna Jones jjones@sirgar.gov.uk	POB UN
Cadarnhau swyddog arweiniol gwirfoddoli y sefydliadau i Dîm Cymorth y BGC.	POB UN
Trefnu bod cynrychiolwyr sefydliadol yn mynd i sesiynau briffio Llinellau Cyffuriau a Gwrthderfysgaeth ar 6 a 7 Mawrth, ar ôl i'r manylion cael eu dosbarthu.	POB UN

5. Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif - gwerthuso'r prosiect peilot

- Rhoddodd Craig Jones o Iechyd Cyhoeddus Cymru y wybodaeth ddiweddaraf yn dilyn gwerthusiad o'r prosiect peilot sy'n defnyddio'r rhyngweithio dyddiol rhwng y staff rheng flaen â'r cyhoedd i hyrwyddo amrywiaeth o negeseuon gan bartneriaid. Roedd cynrychiolwyr Grŵp Llywio y Cyngor, y Bwrdd Iechyd, yr Heddlu a'r Gwasanaeth Tân ac Achub wedi gweithio'n dda gyda'i gilydd ac roedd buddion gweithio mewn partneriaeth yn amlwg. Rhoddwyd trosolwg o'r hyfforddiant a

ddarparwyd i 34 aelod o staff a chafwyd adborth da gan y cyfranogwyr. Roedd 19 o'r staff hynny wedi cwblhau arolwg a chafwyd ymatebion cadarnhaol. Roedd timau eraill o'r sefydliadau hynny a oedd yn gysylltiedig am ymuno â'r prosiect ac roedd dau fwrdd iechyd arall yn bwriadu cyflwyno dull tebyg gan eu bod wedi gweld buddion y prosiect arloesol hwn. Roedd y 'cymorth cof', a oedd yn sicrhau bod gan y staff y wybodaeth wrth law a'u bod yn gallu rhoi'r cymorth priodol, yn hanfodol i'r llwyddiant. Hefyd roedd posibilrwydd y gallai partneriaid gyflwyno'r prosiect ar draws ardaloedd ehangach. Gofynnwyd am gymeradwyaeth o'r argymhellion ac ystyriaeth o'r ffordd ymlaen ar gyfer darparu hyfforddiant yn y dyfodol.

- Roedd Ros Jervis yn gefnogol i gyfraniad parhaus Craig at y prosiect, fel ei Gyfarwyddwr. Roedd Gwneud i Bob Cysylltiad Gyfrif (MECC) yn brosiect cadarnhaol ac adfywiol o safbwynt iechyd y cyhoedd, a oedd yn galluogi staff i rannu gwybodaeth a helpu pobl a hefyd yn galluogi cymunedau lleol i symud ymlaen. Mae'r prosiect yn cyd-fynd â strategaeth newydd y Bwrdd Iechyd, "Canolbarth a Gorllewin Iachach – Cenedlaethau'r Dyfodol yn Byw'n Dda." Nid oedd yn bosibl mesur effaith y prosiect ond roedd angen ymagwedd fwy hamddenol ac roedd yn gwbl gefnogol i MECC.
- Dywedodd Jonathan Feild fod yr Adran Gwaith a Phensiynau yn awyddus i fod yn rhan o'r prosiect.
- Cadarnhawyd bod cyllid ar gael o gyllideb BGC y Cyngor, ond byddai adnoddau ychwanegol gan bartneriaid yn cael eu croesawu. Cafwyd trafodaeth yn ymwneud â hyfforddiant ac awgrymwyd y gellid comisiynu hyn yn allanol neu gellid ystyried y model 'hyfforddi'r hyfforddwr'. Cadarnhaodd Rob Quin fod hyfforddiant eisoes wedi'i ddarparu i'w gorsafoedd.
- Cytunwyd ar yr holl argymhellion ac roedd yn bwysig bod y prosiect yn cael cyhoeddusrwydd.

CAMAU GWEITHREDU	
Trefnu bod hyfforddiant MECC yn cael ei gyflwyno ymhellach i sefydliadau partner yn ôl yr angen.	Kate Harrop
Trefnu bod cynnydd y prosiect MECC yn cael cyhoeddusrwydd.	Kate Harrop

6. Cyfarfod Rhanbarthol y BGC

- Y dyddiad a awgrymwyd ar gyfer y cyfarfod hwn, a fyddai'n cael ei gynnal gan y BGC hwn, oedd 8 Mawrth. Gofynnwyd am awgrymiadau gan bartneriaid ar gyfer eitemau ar yr agenda a derbyniwyd y canlynol:
    - Camau Cynnar Gyda'n Gilydd - Newyddion diweddaraf am raglen Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod yr Heddlu a thrafodaeth am y cynllun gweithredu
    - Cronfa Drawsnewid y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol
    - Rhannu gwybodaeth – amlinelliad o'r gwaith a wnaed hyd yn hyn a rôl BGC yn y dyfodol
    - Thema agored i niwed
    - Newid diwylliannol – gallai hyn fod yn thema drwy gydol y cyfarfod.
    - Menter caffael bwyd - gwybodaeth a chydweithio posibl. Gellid gwahodd partneriaid o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eraill i arsylwi ar y cyfarfod â chyflenwyr
    - Deall sut y mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus lleol yn gweithio'n wahanol a rhannu gwybodaeth am amcanion llesiant pob BGC i nodi pethau sy'n gyffredin
    - Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Gredyd Cynhwysol gan yr Adran Gwaith a Phensiynau

- Dywedodd Jonathan Feild y gellid cael y wybodaeth ddiweddaraf am Gredyd Cynhwysol yn y cyfarfod rhanbarthol neu yng nghyfarfodydd unigol pob BGC. Roedd wedi mynychu'r digwyddiadau a gynhaliwyd gan Academi Wales ynghylch 'BGC Iachach' yng Ngheredigion a Sir Benfro. Cafodd aelodau eu herio i feddwl yn wahanol a chafwyd adborth cadarnhaol ond nid oedd llawer wedi mynd i'r digwyddiad yn Sir Benfro. Roedd y digwyddiad yn cynnwys trafodaeth ar beth yw BGC croesawgar ac atyniadol ac wedi tynnu sylw at yr angen i werthfawrogi barn pob un.

- Dywedodd Rob Quin ei fod o'r farn y gallai'r BGC wneud hynny ar ei ben ei hunan a bod Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn gweithio mewn ffyrdd gwahanol. Nid oedd o'r farn y byddai sesiwn o'r fath o fudd i ni yn Sir Gaerfyrddin.
- Cytunwyd y byddai'n fwy buddiol edrych ar sut y gallwn weithio'n well fel grŵp. Cafwyd adborth gan aelodau bod ein BGC yn agored ac yn groesawgar i sefydliadau allanol. Mae'n esiampl dda y gellid ei hymestyn i ardaloedd eraill.

CAMAU GWEITHREDU	
Cytuno ar agenda ar gyfer cyfarfod rhanbarthol nesaf y BGC gyda chydweithwyr rhanbarthol a gwneud trefniadau angenrheidiol.	Gwyneth Ayers

7. Cymorth i BGC 2019/20

- Dosbarthwyd llythyr a oedd yn rhoi amlinelliad o'r cymorth cyffredinol, cymorth wedi'i dargedu a chymorth lleol sydd ar gael i BGC gan Lywodraeth Cymru. Yn dilyn y drafodaeth yn gynharach, cytunwyd y dylid cysylltu ag Academi Wales ynghylch sesiwn mwy penodol a phwrpasol er mwyn helpu'r BGC i ddatblygu a chamu ymlaen. Cafodd y gefnogaeth a amlinellwyd yn y llythyr ei nodi, gan gynnwys cydlynu'r rhwydwaith o arweinwyr BGC a'r pecyn cyllid rhanbarthol a gafodd ei ddefnyddio eleni i ariannu'r Cydgysylltydd BGC rhanbarthol a'r System Wybodaeth Ddigidol.
- Cyfeiriodd Gwyneth Ayers at y wybodaeth ddiweddaraf a oedd yn cael ei derbyn yn rheolaidd gan Lywodraeth Cymru a Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a chytunwyd y byddai'n cael ei dosbarthu i aelodau yn y dyfodol.
- Datganodd Jane Davidson fuddiant gan ei bod yn rhan o fwrdd cynghori Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

CAMAU GWEITHREDU	
Cysylltu ag Academi Wales ynghylch sesiwn datblygu pwrpasol ar gyfer y BGC.	Gwyneth Ayers
Dosbarthu'r wybodaeth genedlaethol a dderbynnir yn rheolaidd gan Lywodraeth Cymru a Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.	Tîm Cymorth y BGC

8 UNRHYW FATER ARALL

- Cyfeiriodd Gwyneth Ayers at y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE a oedd yn rhan o'r broses o adael yr UE. Ym mis Mawrth, bydd angen i holl ddinasyddion yr UE yn y DU gofrestru a bydd hyn â goblygiadau i staff gwasanaethau cyhoeddus. Ceir cyfle i rannu profiadau a thrafod sut y bydd hyn yn cael ei roi ar waith. Mae gan y Brifysgol nifer sylweddol o staff a bydd costau yn gysylltiedig â rheoli'r broses hon. Nid oedd partneriaid eraill yn ymwybodol o'r cynllun hwn a chytunwyd y byddai gwybodaeth am y cynllun yn cael ei dosbarthu.
- Dywedodd Huwel Manley wrth yr aelodau fod CNC yn cynnal digwyddiad ymgysylltu yn Rhydaman (8 Mawrth) ynghylch cynllun llifogydd Llwchwr.

CAMAU GWEITHREDU	
Dosbarthu gwybodaeth am y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE i bartneriaid.	Gwyneth Ayers
Dosbarthu gwybodaeth am y sesiwn ymgysylltu cymunedol ynghylch newid yn yr hinsawdd a gynhelir yn Rhydaman.	Huwel Manley

	Crynodeb o'r Camau Gweithredu	Pwy	Y Wybodaeth Ddiweddaraf
	Camau gweithredu yn dilyn y cyfarfod ar 20 Medi		
1	Trefnu trafodaeth ar gynigion prosiectau posibl fferm wynt Fforest Brechfa mewn cyfarfod yn y dyfodol, pan fydd rhagor o fanylion ynghylch cronfa ranbarthol ar gael, a gwahodd Aled Vaughan-Owen, y swyddog datblygu cymunedol.	Tîm Cymorth y BGC	Yn parhau
2	Dosbarthu copi o adroddiad Ailgychwyn y System: Trawsnewid Gwasanaethau Cyhoeddus drwy wneud gwell defnydd o ddulliau digidol: Adroddiad panel arbenigol ar gyfer Llywodraeth Cymru.	Tîm Cymorth y BGC	Wedi ei gwblhau
3	Os nad oedd hyn wedi'i wneud, ystyried gwneud cais am statws Rhuban Gwyn er mwyn dangos ymrwymiad i roi terfyn ar drais dynion yn erbyn menywod.	POB UN	
4	Darparu copi o siarter comisiynu Bwrdd Dinas Wolverhampton i Dîm Cymorth y BGC i'w ddosbarthu.	Ros Jervis / Tîm Cymorth y BGC	Copi wedi ei dderbyn
5	Grŵp Cyflawni Pobl a Lleoedd Ffyniannus i wneud cynnydd ar gynnig Community Wealth Building, gan gynnwys ystyried cynnwys swyddog datblygu yn y cynnig am gyllid LEADER.	Jane Lewis	Cais i grant Economi Sylfaen LlC i'w baratoi unwaith y cadarnheir y manylion
6	Gwahodd Stuart Walters i gyfarfod nesaf Grŵp Cyflawni Pobl a Lleoedd Ffyniannus.	Tîm Cymorth y BGC	Wedi ei gwblhau
7	Dosbarthu'r wybodaeth ddiweddaraf gan y Grŵp Ymyrraeth Gynnar.	Tîm Cymorth y BGC	Wedi ei gwblhau
8	Ystyried y ffurflen Mynegi Diddordeb ar gyfer y Gronfa Iach ac Egnïol a rhoi unrhyw adborth i Joanna Jones jjones@sirgar.gov.uk	POB UN	Wedi ei gwblhau. Cais ail gam wedi'i gyflwyno, disgwylir y canlyniad erbyn diwedd mis Mawrth 2019.
9	Cadarnhau swyddog arweiniol gwirfoddoli y sefydliadau i Dîm Cymorth y BGC.	POB UN	
10	Trefnu bod cynrychiolwyr sefydliadol yn mynd i sesiynau briffio Llinellau Cyffuriau a Gwrthderfysgaeth ar 6 a 7 Mawrth, ar ôl i'r manylion cael eu dosbarthu.	POB UN	Wedi ei gwblhau. Mynychodd 206 o swyddogion y sesiynau
11	Trefnu bod hyfforddiant MECC yn cael ei gyflwyno ymhellach i sefydliadau partner yn ôl yr angen.	Kate Harrop	Mae'r Grŵp Llywio wedi cyfarfod i fwrw ymlaen â'r cam gweithredu hwn.
12	Trefnu bod cynnydd y prosiect MECC yn cael cyhoeddusrwydd.	Kate Harrop	Mae deunydd cyhoeddusrwydd yn cael ei ddatblygu.
13	Cytuno ar agenda ar gyfer cyfarfod rhanbarthol nesaf y BGC gyda chydweithwyr rhanbarthol a gwneud trefniadau angenrheidiol.	Gwyneth Ayers	Yn parhau
14	Cysylltu ag Academi Wales ynghylch sesiwn datblygu pwrpasol ar gyfer y BGC.	Gwyneth Ayers	Yn parhau

	Crynodeb o'r Camau Gweithredu	Pwy	Y Wybodaeth Ddiweddaraf
15	Dosbarthu'r wybodaeth genedlaethol a dderbynnir yn rheolaidd gan Lywodraeth Cymru a Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.	Tîm Cymorth y BGC	Yn parhau
16	Dosbarthu gwybodaeth am y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE i bartneriaid	Gwyneth Ayers	Wedi ei gwblhau
17	Dosbarthu gwybodaeth am y sesiwn ymgysylltu cymunedol ynghylch newid yn yr hinsawdd a gynhelir yn Rhydaman	Huwel Manley	Wedi ei gwblhau